

Cwrs Diogelwch ac Arweinyddiaeth

AM DDIM!
Cwrs Diogelwch
ac Arweinyddiaeth
ar gyfer Mamau
Dwyrain Caerdydd

Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, bydd Tim Parry Johnathan Ball Peace Foundation yn cynnal sesiynau blasu yn eich ardal ar gyfer y cwrs gwerthfawr hwn. Mae'r cwrs yn cynnig amgylchedd diogel a hamddenol i Famau wella'u hymwybyddiaeth o ran diogelwch, magu hyder a datblygu sgiliau arwain; yn y cartref, yn y gymuned, a rhwng diwylliannau.

Sesiwn blasu

Dydd Llun 11 Gorffennaf: 9.15am-10.30am – Hyb Partneriaeth Tredelerch, Heol Llansteffan, CF3 3JA

Dydd Llun 11 Gorffennaf: 11.00am-12.30pm – Hyb Llanrhymni, Rhodfa Countisbury, CF3 5NQ

Dydd Llun 11 Gorffennaf: 1.00pm-2.30pm – Hyb Llaneirwg, 30 Heol Crucywel, CF3 0EF

Dewch draw i un o'r sesiynau blasu uchod i weld a hoffech fod yn rhan o'r cwrs deg wythnos (cynhelir egwyl hanner tymor) sy'n dechrau ym mis Medi 2022.

Amser y cwrs: 9.30am-12.30pm. Dydd a Lleoliad (Dwyrain Caerdydd) i'w gadarnhau.

Mae'r cwrs yn rhyngweithiol iawn ac nid oes angen hyfforddiant na chymhwyster blaenorol penodol ar gyfranogwyr. Mae cyfranogwyr llwyddiannus yn derbyn achrediad ar Lefel 1 ar y Fframwaith Cymhwysterau Rheoleiddiedig.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Ymarferion a gemau grŵp
- Sut i ymdrin â phynciau anodd fel radicaleiddio, gwahaniaethu a diogelu.
- Amlgyfrwng – defnyddir sain a fideo i ddechrau trafodaeth.
- Cynnal Sgyrsiau Anodd – Sgiliau i gynnal sgyrsiau anodd.

Beth sy'n cael ei drafod?

- Hunaniaeth a pherthyn – Dod yn ymwybodol o'n gwerthoedd ni a rhai pobl eraill.
- Datrys gwrthdaro – sut i ddelio â gwrthdaro, deall eithafiaeth o wahanol fathau.
- Arweinyddiaeth – sut i wneud pethau'n wahanol; sut i gael eich clywed a gwneud gwahaniaeth.
- Eithafiaeth – Dysgu a deall sut mae Unigolion yn dechrau ymwneud ag eithafiaeth.

Dim ond 25 lle sydd ar y cwrs, peidiwch â cholli'r cyfle anhygoel hwn i wella eich sgiliau, ennill cymhwyster a chwrdd â phobl newydd yn eich ardal leol.



“Byddaf yn defnyddio'r pethau rwyf wedi'u dysgu gyda theuluoedd a ffrindiau wrth wynebu gwrthdaro ac rwy'n gobeithio gwella dealltwriaeth y gymuned o'r fath faterion.”

Mwy o wybodaeth

Mae'r cwrs AM DDIM!! Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Christine Cox ar christine.cox@peace-foundation.org.uk

www.peace-foundation.org.uk



Tim Parry
Johnathan Ball
Peace Foundation
Communities

